# Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau
—
# Member Accountability Bill Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBAA@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBAA
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddMAB@senedd.wales
senedd.wales/SeneddMAB
0300 200 6565

Julie James AS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni

Dyddiad | Date: 22 Ionawr 2026

Annwyl Julie,

Pwnc | Subject: Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) – penderfyniad ariannol

Ysgrifennaf i ofyn am gadarnhad ynghylch pryd rydych chi'n bwriadu cyflwyno cynnig penderfyniad ariannol newydd mewn perthynas â Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau).

Yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Ionawr 2026, dywedsoch ei bod yn fwriad gennych gyflwyno'r cynnig penderfyniad ariannol mewn pryd i drafodion Cyfnod 2 gael eu cynnal ar 12 a 13 Chwefror.

Fel y gwyddoch, mae'r ffaith nad yw'r cynnig i gytuno ar benderfyniad ariannol wedi cael ei gymeradwyo eto yn golygu na all Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau gynnal unrhyw drafodion ar y Bil, gan gynnwys gwaredu gwelliannau.

Er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor, i bob Aelod o'r Senedd, ac i'r cyhoedd, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn egluro eich bwriad cyn gynted â phosibl.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir,

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament